GWEITHDREFN AR GYFER YMCHWILIADAU I ACHOSION O GAMYMDDYGIAD MYFYRWYR

1. Rydym yn cydnabod y gallai honiad o gamymddygiad yn eich erbyn fod yn straen ac yn peri gofid. Mae cyngor a chefnogaeth ar gael gan:

    - Undeb y Myfyrwyr - Home (ukmsl.net)
    - Gwasanaethau Myfyrwyr - https://advice.southwales.ac.uk/cyngor/a2z/student-services/
    - Y Gaplaniaeth - https://chaplaincy.southwales.ac.uk/caplaniaeth/
    - Cyngor Mewnfudo a Myfyrwyr Rhyngwladol - https://intadvice.southwales.ac.uk/

    Hefyd mae nifer o wasanaethau eraill a all roi cymorth i chi, y gellir dod o hyd i fanylion llawn amdanynt yma.

2. Mae rhestr o enghreifftiau **anghyflawn** o gamymddygiad posibl wedi'u cynnwys yn y Cod Ymddygiad Myfyrwyr ac yn y Rheoliadau Camymddwyn Anacademaidd.

3. Bydd y Brifysgol yn dechrau ymchwiliad cyn gynted â phosibl ar ôl cael honiad o dorri Cod Ymddygiad Myfyrwyr y Brifysgol.

4. Pwrpas yr ymchwiliad yw canfod ffeithiau'r mater, casglu ac ystyried tystiolaeth a phenderfynu a oes achos i'w ateb.

5. Os yw'r honiad wedi'i wneud yn erbyn grŵp o fyfyrwyr a bod penderfyniad wedi'i wneud y bydd yr achos yn cael ei ystyried fel grŵp, bydd pob myfyriwr yn cael cyfle i gyfarfod â'r Swyddog Ymchwilio. Bydd pob myfyriwr yn cael copi o'r dystiolaeth sy'n cael ei hystyried a bydd yr holl amgylchiadau unigol yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau. Pan fydd Pwyllgor Disgyblu neu Addasrwydd i Ymarfer yn gwrando ar bob achos yn unigol, bydd pob gwrandawiad yn cynnwys yr un aelodau Pwyllgor.

6. Bydd Swyddog Ymchwilio yn cael ei benodi gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr. Mewn achosion difrifol, bydd y Swyddog Ymchwilio fel arfer yn un o Swyddogion Ymchwilio Proffesiynol y Brifysgol. Os oes angen Swyddog Ymchwilio o'r gyfadran, fel arfer byddant yn dod o'r tu allan i'r maes pwnc yr ydych wedi'ch lleoli ynddo ac ni fydd ganddynt unrhyw wybodaeth flaenorol am eich achos. Mewn rhai amgylchiadau, gall y Brifysgol benderfynu cyflogi ymchwilydd arbenigol y tu allan i'r Brifysgol. Fe'ch hysbysir yn ysgrifenedig am fanylion yr honiad, a hunaniaeth y Swyddog Ymchwilio.

7. Bydd honiad(au) newydd neu ddiwygiedig a wneir, neu a ddaw i'r amlwg, yn ystod ymchwiliad yn cael eu cyfleu i chi yn ysgrifenedig. Byddwch yn cael cyfle i wneud sylwadau ar yr honiad(au) newydd/diwygiedig a bydd unrhyw sylwadau a wneir yn cael eu rhannu â'r holl bartïon perthnasol. Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd angen i'r Brifysgol rannu gwybodaeth y tu allan i'r sefydliad os yw hyn yn angenrheidiol

i'ch diogelu chi, y Myfyriwr sy'n Adrodd neu eraill rhag niwed neu atal trosedd rhag digwydd.

8. Bydd y Swyddog Ymchwilio yn anelu at gwblhau ei ymchwiliad o fewn 30 diwrnod gwaith. Gellir ymestyn yr amserlen hon mewn cytundeb â chi neu, o dan amgylchiadau eithriadol[1], gan y Brifysgol. Byddwch yn cael gwybod am unrhyw oedi yn y broses.

9. Byddwch fel arfer yn cael eich cyfweld fel rhan o'r ymchwiliad. Bydd y Swyddog Ymchwilio yn penderfynu pwy i'w gyfweld ac ym mha drefn.

10. Ni allwch anfon unrhyw berson arall i fynychu'r cyfarfod ar eich rhan.

11. Cynhelir unrhyw gyfarfodydd naill ai wyneb yn wyneb neu drwy ddulliau electronig, er enghraifft ar Teams. Bydd y Swyddog Ymchwilio yn cymryd recordiadau fideo neu sain ac yn eu defnyddio i gynhyrchu ei adroddiad. Cedwir recordiadau drwy gydol gweithdrefnau mewnol y Brifysgol ac, os bydd angen, drwy gydol yr amserlen ar gyfer y cais i adolygu ac ystyried yr achos gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol dros Addysg Uwch.

12. Gallwch ofyn am gopi o recordiad; fodd bynnag, bydd unrhyw gofnodi, copïo neu ddosbarthu recordiadau neu ddeunyddiau ysgrifenedig heb awdurdod yn cael ei ystyried yn dramgwydd disgyblu.

13. Gallwch gyflwyno cais am amgylchiadau esgusodol, os ydych yn credu bod yr achos wedi effeithio ar eich astudiaethau academaidd. Ni fydd angen i chi ddatgelu manylion yr honiad yn eich erbyn gan y gall yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr ddarparu llythyr i gefnogi eich cais.

14. Caniateir i chi gael person cymorth gyda chi mewn unrhyw gyfarfodydd; er enghraifft, swyddog o Undeb y Myfyrwyr, aelod o staff o'r Gaplaniaeth, neu ffrind. Rôl y person cymorth yw darparu cefnogaeth yn ystod eich cyfarfod. Fel arfer nid eu rôl yw eich cynrychioli chi, na dadlau ar eich rhan na siarad ar eich rhan, oni bai bod hyn wedi'i gytuno fel addasiad rhesymol oherwydd anabledd.

15. O leiaf 48 awr cyn y cyfarfod, mae'n rhaid i chi hysbysu'r Brifysgol o enw a statws y person sy'n dod gyda chi. Argymhellir yn gryf eich bod yn ceisio cefnogaeth gan Undeb y Myfyrwyr neu'r Gaplaniaeth gan eu bod yn annibynnol ac yn gyfarwydd â Rheoliadau a Gweithdrefnau'r Brifysgol.

16. Mae Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn cadw'r hawl i wrthod presenoldeb person cymorth os penderfynir bod gwrthdaro buddiannau yn ymwneud â'r person a enwebwyd, ac os felly, rhoddir cyfle i chi enwebu person cymorth gwahanol.

17. Nid yw Rheoliadau, Polisïau a Gweithdrefnau Prifysgol De Cymru yn gyfreithiol eu natur ac felly ni ddylai fod angen i chi gael person cymorth neu gynrychiolydd cyfreithiol cymwys mewn unrhyw gyfarfodydd. Fodd bynnag, gallwch geisio cyngor rhagarweiniol, heb ragfarn, lle mae achos yn arbennig o gymhleth, ac mae'r canlyniad posibl yn ddifrifol.

[1] Efallai y byddwn yn ymestyn yr amserlenni lle, er enghraifft, mae eich achos yn arbennig o gymhleth, a bod yn rhaid i ni gyfweld â nifer o staff a myfyrwyr eraill; Mae hyn er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal ymchwiliad llawn a theg i'r materion a godwyd. Enghraifft arall yw lle gallai fod gan aelod allweddol o staff absenoldeb heb ei gynllunio a allai effeithio ar amserlenni.

18. Er nad oes gennych hawl awtomatig i berson neu gynrychiolydd cyfreithiol cymwys, os ydych am gael eich cefnogi/cynrychioli mewn cyfarfod, rhaid i chi wneud cais am ganiatâd ysgrifenedig i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr (studentcasework@southwales.ac.uk) o leiaf bum niwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod. Rhaid i chi gynnwys enw'r cynrychiolydd arfaethedig a'r rhesymeg dros eich cais. Gweler Gweithdrefn y Brifysgol ar gyfer Ystyried Ceisiadau am Gynrychiolaeth Gyfreithiol am ragor o wybodaeth.

19. Unwaith y bydd yr ymchwiliad wedi'i gwblhau, bydd adroddiad y Swyddog Ymchwilio yn cael ei gyflwyno i Ddeon y Gyfadran (neu enwebai). Gwneir penderfyniad ynghylch a oes achos i'w ateb ac, os felly, a oes gan y gyfadran ddigon o dystiolaeth eisoes i ddod i gasgliad a gweithredu cosb neu a ddylid cyfeirio'r achos i wrandawiad. Gallai'r gwrandawiad hwn gael ei gynnal naill ai gan Bwyllgor Disgyblu'r Brifysgol neu, os ydych yn fyfyriwr sy'n astudio ar gwrs sy'n arwain at gofrestriad proffesiynol a/neu drwydded i ymarfer mewn cyd-destun proffesiynol, gan y Pwyllgor Addasrwydd i Ymarfer. Byddwch yn cael copi o adroddiad y Swyddog Ymchwilio a llythyr gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr yn cadarnhau beth fydd yn digwydd nesaf.

20. Os yw iechyd corfforol neu feddyliol myfyriwr yn effeithio'n uniongyrchol ar ei ymddygiad, a bod ymchwiliad yn tynnu sylw at yr angen am atgyfeiriad i'r Weithdrefn Cymorth i Astudio, yna caiff yr achos ei gyfeirio yn unol â hynny.

Rheoliadau a Gweithdrefnau Cysylltiedig
Rheoliadau Camymddwyn Anacademaidd
Gweithdrefn ar gyfer Gwrandawiadau Disgyblu/Addasrwydd i Ymarfer
Gweithdrefn ar gyfer Ceisiadau am Adolygiad
Gweithdrefn ar gyfer Ceisiadau am Gynrychiolaeth Gyfreithiol
Gweithdrefn Asesu Risg
Canllawiau ar gyfer Gweithredu Cosbau
Rheoliadau a Gweithdrefn Amgylchiadau Esgusodol
Rheoliadau a Gweithdrefn Cymorth i Astudio